**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio

**Ystafell Bwyllgor 5 - Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 10 Ebrill 2018 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**:

| **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** | **Y Cynghorwyr** |
|---|---|---|
| C Anderson | T J Hennegan | P R Hood-Williams |
| O G James | L James | J W Jones |
| M B Lewis | S Pritchard | W G Thomas |
| L V Walton | T M White | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd Rob Stewart | Arweinydd Cyngor Abertawe |
| Susan Powell | Cyngor Caerdydd |
| Paula O'Connor | Aelod Lleyg Annibynnol |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Simon Cockings | Prif Archwiliwr |
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Jeff Fish | Ymchwilydd - Tîm Twyll Corfforaethol |
| Kate Jones | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracy McNulty | Pennaeth y Gwasanaethau Diwylliannol |
| Dave Osborne | Rheolwr Gweithrediadau Hamdden |
| Sandie Richards | Prif Gyfreithiwr |
| Jonathan Rogers | Ymchwilydd - Tîm Twyll Corfforaethol |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb.**
Y Cynghorwyr: B Hopkins a P K Jones

---

## 70 Ethol Cadeirydd ar Gyfer y Gweddill Blwyddyn Ddinesig 2017 - 2018.

**Penderfynwyd** ethol Paula O'Connor yn Gadeirydd ar gyfer gweddill Blwyddyn Ddinesig 2017/2018

**(Bu Paula O'Connor (Cadeirydd Annibynnol) yn llywyddu)**

## 71 Datgeliadau o Gysylltiadau Personol a Rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, cyhoeddwyd y cysylltiadau canlynol: -

Paula O'Connor – yr Agenda gyfan - gweithiwr cyflogedig gydag Ymddiriedolaeth GIG Felindre - Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru - yn darparu Gwasanaeth Archwilio Mewnol fel Pennaeth Archwilio Mewnol Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg - Personol.

**72 Cofnodion.**

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Archwilio fel cofnod cywir, yn amodol ar y pwynt canlynol y dylid rhoi sylw iddo: -

- Cofnod 65 - Nid oedd y pwyllgor wedi cael mynediad uniongyrchol eto at y Gofrestr Risgiau Corfforaethol.

**73 Gwaith Pwyllgorau Datblygu a Chyflwyno.**

Rhoddodd y Cynghorydd Rob Stewart/yr Arweinydd y diweddaraf i'r Pwyllgor am gynnydd y Pwyllgorau Datblygu a Chyflwyno. Fe'u sefydlwyd ym mis Mehefin 2007 ac roeddent wedi dilyn y rhaglenni gwaith a bennwyd ar gyfer y flwyddyn ddinesig. Roedd nifer o Bwyllgorau Datblygu a Chyflwyno wedi darparu adroddiadau i'r Cabinet a oedd wedi'u derbyn yn unfrydol hyd yn hyn. Roedd yr adroddiadau diwedd blwyddyn ar gyfer pob pwyllgor yn y broses o gael eu paratoi.

Adroddodd yr Arweinydd ei fod yn fodlon ar ganlyniadau'r pwyllgorau, a chynigiwyd y dylid eu cryfhau ymhellach ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf, gyda chynllun clir ar gyfer pob un ar y cychwyn, yn ogystal â chynyddu canlyniadau a pholisïau. Crybwyllodd y Cynllun Corfforaethol uchelgeisiol ac y byddai gan y pwyllgorau lwyth gwaith mawr i'w gyflawni yn dilyn hyn.

Gofynnwyd cwestiynau i'r Arweinydd, a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol:-

- Y gwahaniaeth rhwng y Pwyllgorau Datblygu a Chyflwyno Polisi a Chraffu;
- Yr angen am esboniad ysgrifenedig o'r Pwyllgorau Datblygu a Chyflwyno Polisi ar gyfer y Pwyllgor Archwilio sy'n amlinellu eu rôl a sut maent yn cysylltu ag amcanion y cyngor;
- Y ffaith y byddai rhai meysydd gwaith/datblygu polisi yn cymryd yn hwy nag eraill oherwydd ehangder y pwnc.
- Darparu adroddiadau diwedd blwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio
- Cyfrifoldeb am bennu'r cynllun gwaith ar gyfer y pwyllgorau - Swyddogion Corfforaethol arweiniol ynghyd â'r Cadeirydd; a'r
- Bwriad i newid y teitl i Bwyllgorau Datblygu Polisïau ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:-
1) Nodi'r diweddaraf am y Pwyllgorau Datblygu a Chyflwyno Polisi;
2) Darparu esboniad ysgrifenedig i'r Pwyllgor Archwilio o rôl y Pwyllgorau Datblygu a Chyflwyno Polisi yn ogystal â'u cyswllt â'r amcanion corfforaethol;
3) Darparu adroddiadau diwedd blwyddyn i'r Pwyllgor Archwilio am y Pwyllgorau Datblygu a Chyflwyno Polisi ar gyfer y flwyddyn ddinesig gyfredol;

4) Darparu'r strwythur/cynllun gwaith am y flwyddyn ddinesig nesaf ar gyfer pob Pwyllgor Datblygu a Chyflwyno Polisi i'r Pwyllgor Archwilio, a fydd yn cynnwys canlyniadau ac amserlenni disgwyliedig.

**74 Y Diweddaraf am Adroddiadau Sicrwydd Cymedrol Gan Benaethiaid Gwasanaeth.**

Darparwyd y diweddaraf gan Bennaeth y Gwasanaethau Diwylliannol, gyda chefnogaeth y Pennaeth Gweithrediadau Hamdden, ers archwiliad mewnol blaenorol y gwasanaeth.

Adroddodd Pennaeth y Gwasanaethau Diwylliannol yr aed i'r afael â'r holl risgiau canolig a'r rhan fwyaf o risgiau isel yn yr archwiliad, a'u bod wedi'u datrys. Roedd dwy risg isel yn weddill, ond roedd prosesau ar waith i fynd i'r afael â hwy.

Yn dilyn cwestiynau gan y pwyllgor, eglurodd Pennaeth y Gwasanaethau Diwylliannol fod y prif risgiau a nodwyd gan yr archwiliad yn ymwneud â chyfyngiadau gwario, tryloywder, cymeradwyo'n gywir a gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) sydd wedi dod i ben ar gyfer staff presennol.

Gofynnwyd a fyddai modd i gopi o'r adroddiadau archwilio perthnasol sy'n cael eu trafod gael eu cynnwys yn y papurau agenda mewn cyfarfodydd yn y dyfodol er mwyn atgoffa'r pwyllgor am y materion a amlygwyd.

**Penderfynwyd** nodi'r diweddariad.

**75 Adroddiad Adolygu Cymheiriaid Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.**

Cyflwynodd y Prif Archwiliwr Adroddiad Adolygu Cymheiriaid Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus er gwybodaeth ac roedd Susan Powell, Cyngor Caerdydd, yn bresennol hefyd at ddibenion yr adroddiad.

Darparodd Susan Powell drosolwg byr o'r broses yr oedd wedi ymgymryd â hi wrth baratoi ei hadroddiad, a thynnodd sylw at y chwe argymhelliad a wnaed a amlinellwyd yn Atodiad 2 yr adroddiad.

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch cynnydd yr arfarniadau a diffyg annibyniaeth canfyddedig y Prif Archwiliwr.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**76 Siarter Archwilio Mewnol 2018/19.**

Cyflwynodd y Prif Archwiliwr adroddiad am Siarter Archwilio Mewnol 2018/19. Tynnodd sylw'n benodol at y siarter a amlinellwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad, a oedd yn cynnwys y canlynol: -

- Diffiniad o archwilio mewnol;
- Rôl a swyddogaeth archwilio mewnol;

- Cwmpas archwilio mewnol;
- Annibyniaeth archwilio mewnol;
- Rôl Ymgynghorol archwilio mewnol;
- Rôl twyll, llwgrwobrwyo a llygru archwilio mewnol;
- Adnoddau archwilio mewnol; a
- Sicrhau ansawdd a gwella rhaglenni

Gofynnwyd cwestiynau ynghylch cyfrifoldeb rheoli'r Prif Archwiliwr yn ogystal â'r argaeledd i gyflwyno'r siarter a sicrhau ansawdd o gofio am doriadau staff.

**Penderfynwyd** cymeradwyo Siarter Archwilio Mewnol 2017/18.

**77 Cynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2018/19.**

Cyflwynodd y Prif Archwiliwr adroddiad am Gynllun Blynyddol Archwilio Mewnol 2018/19. Tynnodd sylw'n benodol at baragraff 2.3 yr adroddiad a oedd yn adrodd am golli 0.4 o swydd ar gyfer 2018/19 o'i gymharu â 2017/18. Nid oedd hyn yn ddatblygiad newydd, ond nid adroddwyd amdano yn 2017. Darparwyd crynodeb o'r gwaith a gynlluniwyd yn Atodiad 2 yr adroddiad. Dywedodd y Prif Archwiliwr fod y cynllun yn ddigonol ar gyfer yr holl adrannau. Darparodd Atodiad 3 yr adroddiad ddadansoddiad manylach o'r gwaith a gynlluniwyd.

Dilynwyd hyn gan drafodaeth a oedd yn canolbwyntio ar y canlynol: -

- Contract fframwaith tacsis;
- Pryderon ynghylch mwy o doriadau staff a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar yr Is-adran Archwilio, gan effeithio ar ei gallu i gyflawni ei swyddogaeth yn effeithiol;
- Risgiau posib os na chaiff yr holl eitemau ar amserlen y Cynllun Blynyddol eu cwblhau;
- A fyddai digon o waith yn cael ei gwblhau i ganiatáu i'r Prif Archwiliwr wneud Datganiad o Sicrwydd;
- Diffyg Fframwaith Llywodraethu yn y Cynllun Blynyddol; a
- Darparu mwy o wybodaeth am feysydd gwaith a geir yn y Cynllun Blynyddol fel y byddai'n haws gweld yn fwy penodol pa feysydd oedd yn cael eu harchwilio.

Ceisiodd y Cadeirydd gymeradwyaeth gan y pwyllgor i drafod rhai diwygiadau i'r Cynllun Blynyddol â'r Prif Archwiliwr, y tu allan i'r pwyllgor. Roedd y diwygiadau hyn yn ymwneud yn benodol â materion llywodraethu a chysylltiadau â'r amcanion corfforaethol. Cymeradwywyd yr ymagwedd hon gan y pwyllgor a chytunwyd yr adroddir am y Cynllun Blynyddol diwygiedig yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio.

**Penderfynwyd** ar y canlynol: -

1) Cymeradwyo Cynllun Archwilio Mewnol 2018/19 yn amodol ar rai newidiadau i'w trafod â'r Prif Archwiliwr a'r Cadeirydd; a
2) Darparu Cynllun Archwilio Mewnol 2018/19 yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio.

## 78 Is-adran Archwilio Mewnol - Swyddogaeth Twyll Y Cynllun Garth-dwyll ar Gyfer 2018/2019.

Cyflwynodd Ymchwiliwr y Tîm Twyll Corfforaethol adroddiad am y Cynllun Gwrth-dwyll ar gyfer 2018/2019. Dywedodd fod yr adroddiad wedi'i ysgrifennu gan y Cyn-reolwr Twyll Corfforaethol a oedd bellach wedi ymddeol. Rhagwelwyd y byddai'r Cynllun Gwrth-dwyll ar gyfer 2018/2019 a luniwyd gan y Rheolwr Twyll Corfforaethol yn aros yn gymharol ddigyfnewid.

Adroddodd Ymchwiliwr y Tîm Twyll Corfforaethol mai'r tîm hwn bellach oedd y Swyddogaeth Twyll (teitl newydd) a thynnodd sylw at y canlynol: -

- Rhwymedigaeth i frwydro yn erbyn twyll;
- Egwyddorion mynd i'r afael â thwyll
- Sicrhau bod yr ymateb gwrth-dwyll yn gynhwysfawr ac yn effeithiol;
- Polisi Gwrth-dwyll a Gwrthlygredd y cyngor yn ogystal â datganiadau polisi corfforaethol eraill;
- Egwyddorion Nolan;
- Nodau'r Cynllun Gwrth-dwyll;
- Mesur gwerth y swyddogaeth gwrth-dwyll;
- Canolbwyntio adnoddau'r swyddogaeth gwrth-dwyll;
- Darperir gwybodaeth am Wirio Asesu Risgiau Gwrth-dwyll 2018/19 yn Atodiad 1 yr adroddiad;
- Darperir Datganiad Gwrth-dwyll 2018/19 yn Atodiad 2 yr adroddiad; a
- Darperir Cynllun Gwrth-dwyll 2018/19 yn Atodiad 3 yr adroddiad.

Gofynnwyd cwestiynau i'r swyddogion cyflwyno a ymatebodd yn briodol. Roedd y cwestiynau'n canolbwyntio ar: -

- Effaith Credyd Cynhwysol ar Dwyll Budd-dal;
- Arfer gorau contractwyr;
- Rheoli llwyth gwaith gyda llai o staff;
- Monitro twyll anfonebau'n gorfforaethol ac mewn ysgolion;
- Terfynu'r cynllun Hawl i Brynu
- Llwyddiant y swyddogaeth gwrth-dwyll;
- Galw cynyddol am y gwasanaeth o ganlyniad i'r ymwybyddiaeth gynyddol o'r swyddogaeth gwrth-dwyll;
- Awydd i wneud mwy o waith rhagweithiol;
- Posibilrwydd o gysylltu â chyd-weithwyr Gwrth-dwyll yn y GIG a Swyddfa Archwilio Cymru lle bo'n berthnasol;

**Penderfynwyd** cymeradwyo'r adroddiad ar yr amod yr adolygir adnoddau'n rheolaidd.

## 79 Adroddiad Olrhain Gweithredu'r Pwyllgor Archwilio.

Darparodd y Prif Archwiliwr adroddiad Olrhain Camau Gweithredu er gwybodaeth.

Nodwyd bod eitem anghyflawn ar yr Adroddiad Olrhain Camau Gweithredu a oedd yn dyddio'n ôl i 2016 a gofynnwyd a ddylid cael gwared yn awr ar rai o'r blynyddoedd hŷn o'r adroddiad olrhain.

**Penderfynwyd** nodi cynnwys yr adroddiad.

**80 Cynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio. (Er Gwybodaeth)**

Adroddwyd am Gynllun Gwaith y Pwyllgor Archwilio er gwybodaeth.

Gofynnodd y Cadeirydd, gyda chymeradwyaeth y pwyllgor, am ddiweddariad ar yr argymhellion a wnaed gan Adolygiad Perfformiad y Pwyllgor Archwilio 2016/2017 ar gyfer y cyfarfod nesaf gan y byddai adolygiad pellach ym mis Mehefin 2018.

**Penderfynwyd** ar y canlynol:-

1) Bydd y Cadeirydd a'r Prif Archwilydd yn trafod y Cynllun Gwaith ar gyfer blwyddyn ddinesig 2018/2019; a
2) Rhoddir diweddariad yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio ar Adolygiad Perfformiad y Pwyllgor Archwilio 2016/2017.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.52 pm

**Cadeirydd**